

Heddlu De Cymru

Gwybodaeth Am Gydraddoldeb

Mehefin 2013



Cynnwys

Cyflwyniad	3
Deddf Cydraddoldeb 2010 a Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus	3
Proffil Heddlu De Cymru a'i Gymunedau	5
Cyflwyniad gan Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu De Cymru	7
Nodiadau Ystadegol Cyffredinol i Helpu i Ddeall y Tablau	8
Gwybodaeth am Gydraddoldeb	9
1. Dioddefwyr Troseddau	9
2. Trosedd Casineb	12
3. Cam-drin Domestig	17
4. Stopio a Chwilio	21
5. Cwynion	27
6. Gwybodaeth am y Gweithlu	31
7. Hyfforddiant Amrywiaeth	50
8. Calendr o Ddigwyddiadau sy'n Ymwneud ag Amrywiaeth	54
9. Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb	58
10. Defnyddio Data Cydraddoldeb i Wneud Gwahaniaeth	60
11. Manylion Cyswllt ac Adborth	62

Mae'r wybodaeth hon ar gael mewn amrywiaeth o fformatau gwahanol ar gais:

Rhif ffôn uniongyrchol:- 01656 305302

Ffacs:- 01656 761826

E-bost:- KDivEqualityandDiversity@heddlu-de-cymru.pnn.police.uk

Cyflwyniad

Deddf Cydraddoldeb 2010 a Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus

Cyflwyniad

Mae cael eich trin yn deg mewn ffordd nad yw'n gwahaniaethu yn hawl sylfaenol y mae gan bawb yr hawl iddo ac yr hyn maent yn ei haeddu. Ar gyfer Heddlu De Cymru a Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddau De Cymru, mae'n hollbwysig i ni a dyna pam, wrth ddarparu ein gwasanaethau plismona, rydym yn ymrwymedig i wneud popeth o fewn ein gallu i sicrhau ein bod yn diwallu anghenion ac yn bodloni disgwyliadau ein sawl cymuned amrywiol.

Cenhadaeth yr Heddlu yw 'Cadw De Cymru'n Ddiogel' a'n gweledigaeth yw 'bod y gorau am ddeall anghenion ein cymunedau ac ymateb iddynt.'

Mae Heddlu De Cymru a Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddau yn rhannu'r weledigaeth hon ar y cyd a dyma'r corff sy'n goruchwyllo gwaith Heddlu De Cymru. Prif rôl Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddau yw sicrhau bod yr Heddlu yn effeithlon ac yn effeithiol drwy ei ddwyn i gyfrif ar ran y cyhoedd.

Dyletswyddau'r Ddeddf Cydraddoldeb

Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 (Rheoliadau Dyletswyddau Penodol y DU) yn ei gwneud yn ofynnol i ni gyhoeddi gwybodaeth i ddangos sut rydym yn cydymffurfio â'n dyletswydd i:

- a) ddileu gwahaniaethu ac aflonyddu;
- b) datblygu cyfle cyfartal; a
- c) meithrin cydberthnasau da rhwng pobl sydd â nodweddion gwarchoddedig gwahanol.

Mae'r Ddeddf yn diffinio nodweddion gwarchoddedig fel:

- Oedran
- Anabledd
- Rhyw
- Ailbennu Rhywedd
- Priodas neu Bartneriaeth Sifil
- Beichiogrwydd neu Famolaeth
- Hil
- Crefydd neu Gred
- Tueddfryd Rhywiol

Y Wybodaeth a Gyflwynir

Mae'r wybodaeth ar y tudalennau canlynol yn dangos data ar gyfer y ddwy flwyddyn ariannol fwyaf diweddar. Rydym yn cydnabod bod casglu a chyflwyno ein data yn waith sy'n mynd rhagddo. Ar gyfer rhai o'n meysydd gwaith nid oes data ar gael yn hawdd a lle'i fod ar gael, efallai nad yw'n bosib ar hyn o bryd ei gasglu ar gyfer yr holl nodweddion gwarchoddedig. Felly, byddwn yn gweithio i nodi bylchau a dechrau mynd i'r afael â'r rhain dros amser.

laith Gymraeg

Caiff gwybodaeth am fonitro'r laith Gymraeg ei chyhoeddi ar wahân i'r Wybodaeth hon am Gydraddoldeb ac mae ar gael yn www.heddlu-de-cymru.police.uk a www.south-wales.pcc.police.uk

Proffil Heddlu De Cymru a'i Gymunedau

Rydym yn darparu gwasanaeth 24 awr y dydd, 365 diwrnod y flwyddyn er mwyn sicrhau ein bod ar gael bob amser ac yn gallu darparu gwasanaeth sy'n ymatebol i anghenion ein cymunedau.

Mae ein hardal blismona yn cwmpasu saith ffin awdurdod unedig, sef Pen-y-bont ar Ogwr, Caerdydd, Abertawe, Merthyr Tudful, Rhondda Cynon Taf, Castell-nedd a Phort Talbot a Bro Morgannwg. Mae'r ardal blismona wedi'i rhannu'n bedair Uned Reoli Sylfaenol sy'n rheoli plismona'n lleol ac mae'n cwmpasu 42% o boblogaeth Cymru.

O fewn ein hardal blismona o 1,283,651 o breswylwyr¹, nododd 49.1% eu bod yn ddynion a 50.9% eu bod yn ferched. Yn ogystal â'r 1,283,651 o breswylwyr, rydym yn cydnabod bod yr ardal blismona yn cynnwys nifer fawr o fyfyrwyr Prifysgol, a amcangyfrifir yn 100,430², sydd heb eu cynnwys yn nata'r Cyfrifiad. Mae De Cymru hefyd yn denu sawl miliwn o ymwelwyr y flwyddyn, gyda Chanolfan Mileniwm Cymru yng Nghaerdydd yr atyniad mwyaf poblogaidd yng Nghymru i dwristiaid.

Mae poblogaeth De Cymru yn cynnwys 29.9% yn y grŵp oedran o dan 25 oed, 45.8% yn y grŵp oedran rhwng 25 a 59 oed a 24.28% yn y grŵp oedran 60+. Nododd 18.4% fod ganddynt rywfaent o ddealltwriaeth o Gymraeg llafar neu ysgrifenedig. Dangosodd data Cyfrifiad 2011 bod 22.9% o breswylwyr o fewn yr ardal blismona yn nodi bod ganddynt salwch hirdymor sy'n effeithio ar eu gweithgareddau o ddydd i ddydd.

Yn Ne Cymru, mae 4.58% o'r boblogaeth yn bobl economaidd weithgar ddi-waith³, sy'n arwydd o lefel amddifadedd.

Dangosodd data Cyfrifiad 2011 fod 6.6% o'r boblogaeth yn Ne Cymru wedi nodi eu cefndir ethnig fel lleiafrif ethnig, gyda 15.3% o'r boblogaeth yng Nghaerdydd a 6% yn Abertawe yn nodi cefndir lleiafrif ethnig.

Dywed y gyfran uchaf o drigolion (53.8%) eu bod yn Gristnogion gyda 34.9% yn nodi nad oeddent yn perthyn i unrhyw grefydd. Nododd niferoedd bychain mai eu crefydd yw Bwdhaeth, Hindŵaeth, Iddewiaeth, Mwslim neu Sikhiaeth.

Nid oes unrhyw ddata ystadegol ar gael yn gyhoeddus ar y nifer gwirioneddol o bobl yn Ne Cymru sy'n nodi eu bod yn drawsrywiol, sy'n cynnwys trawsrisgwyr, gan nad yw'r wybodaeth hon yn cael ei chasglu drwy'r cyfrifiad nac unrhyw gyfrifiad arall o'r boblogaeth ar hyn o bryd. Mae Heddlu De Cymru yn gweithio'n agos gyda Transgender Cymru, TAWE Butterflies, MTF Wales a'r Gymdeithas Genedlaethol Heddlu Trawsrywiol.


Gan nad yw Cyfrifiad 2011 yn gofyn i breswylwyr nodi eu tueddfryd rhywiol, nid oes unrhyw ddata pendant ar nifer y bobl hoyw, lesbiaidd a deurywiol yn y DU. Fodd bynnag,

¹ Data Cyfrifiad 2011

² Data Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch 2011/12

³ Mae'r term **economaidd weithgar** yn cyfeirio at bobl rhwng 16 a 74 oed sydd mewn gwaith neu ar gael i weithio

amcangyfrifa Actwari'r Llywodraeth fod 6% o'r boblogaeth yn hoyw, yn lesbiaidd neu'n ddeurywiol⁴.



⁴ Stonewall Cymru

Cyflwyniad gan Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddau De Cymru

Yn fy Nghynllun yr Heddlu a Lleihau Nifer y Troseddau a gyhoeddwyd ym mis Ebrill 2013, un o fy mlaenoriaethau yw 'Tegwch, Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Thlodi.' Rwy'n ymrwymedig i sicrhau bod Heddlu De Cymru yn darparu gwasanaeth teg ac ymatebol i ddiodefwrwr ac eraill, sy'n parchu amrywiaeth ac yn deall cydraddoldeb. Rwy'n glir y dylid annog y broses o roi gwybod am ddigwyddiadau casineb, ac y dylai bodlonrwydd diodefwrwr sy'n rhoi gwybod am ddigwyddiadau casineb wella. Rwyf hefyd yn ymrwymedig i annog mwy o amrywiaeth ymhlith cyflogeion Heddlu De Cymru fel y gallwn gynrychioli ein cymunedau amrywiol yn well. Mae'r rhain i gyd yn faterion rwy'n eu trafod yn rheolaidd gyda'r Prif Gwnstabl sy'n rhannu'r un pryderon. Mae fy Nirprwy, Sophie Howe, yn chwarae rôl benodol yn y broses o sicrhau cydraddoldeb o fewn yr heddlu a'r gwasanaeth cyhoeddus ehangach.

Rwyf hefyd wedi nodi blaenoriaeth 'Mynd i'r afael â Thrais yn erbyn Gwragedd a Merched'. Hoffwn weithio i gynyddu faint o bobl sy'n rhoi gwybod am achosion o gam-drin domestig ac rwy'n awyddus i gynyddu'r gwaith a wneir rhwng partneriaid ac asiantaethau cyfiawnder troseddol i wella ein gwasanaeth i ddiodefwrwr cam-drin domestig a thrais rhywiol.

Mae gennyf i a'r Prif Gwnstabl ddyletswyddau statudol i ddileu gwahaniaethu a hyrwyddo cydraddoldeb o fewn ein holl swyddogaethau. Mae rhywfaint o'r wybodaeth yn y ddogfen hon yn cysylltu â'r blaenoriaethau yn fy Nghynllun yr Heddlu a Lleihau nifer y Troseddau, tra bod gwybodaeth arall yn hollbwysig er mwyn asesu pa mor dda yw'r heddlu am gyflawni ei ddyletswyddau cydraddoldeb. Nid oes unrhyw amheuaeth bod lle i wella drwy'r amser, ond y gobaiith yw y bydd y tryloywder a hyrwyddir drwy gyhoeddi'r data hwn yn hyrwyddo hyder y cyhoedd ein bod yn ymrwymedig i weithio tuag at wasanaeth yr heddlu teg ac effeithiol i bawb yn Ne Cymru.

Y Gwir Anrhydeddus Alun Michael

Comisiynydd yr Heddlu a Throseddau De Cymru

Nodiadau Ystadegol Cyffredinol i Helpu i Ddeall y Tablau

1. Darperir Gwybodaeth am Ddarparu Gwasanaeth ar gyfer blynyddoedd ariannol, e.e. cyfeiria 2012-13 at y cyfnod o 1af Ebrill 2012 tan 31ain Mawrth 2013.
2. Mae'r Wybodaeth Gweithlu yn gywir ar 31^{ain} Mawrth 2013.
3. Pan ddangosir newidiadau canran maent yn cymharu hen ddata gyda data newydd. Mae newid canran yn nodi newid mewn gwerth dros amser, a chaiff ei gyfrifo drwy dynnu'r hen werth o'r gwerth newydd, yna'i rannu â'r hen werth. Yn yr adroddiad hwn defnyddir newid canrannau lle bo'n briodol i ddangos newidiadau dros amser. Fodd bynnag, ni ddefnyddir newid canran pan fo'r niferoedd yn fach (yn gyffredinol, pan fo'r rhif yn llai na 100) oherwydd gallent fod yn gamarweiniol.
4. Data'r boblogaeth a ddefnyddir o Gyfrifiad 2011.
5. Dyma'r ail flwyddyn y mae data Monitro Cydraddoldeb wedi'i gyhoeddi i'r manylder hwn. Mewn nifer o feysydd bydd casglu a chyflawnrwydd data yn parhau i gynyddu, a bydd y wybodaeth yn parhau i ddatblygu dros y misoedd a'r blynyddoedd sydd i ddod.
6. Mae Ansawdd Data yn broblem o fewn unrhyw system reoli TG integredig, ac mae'r Heddlu yn parhau i adolygu'r ffordd y mae'n rhoi'r prosesau a'r gweithdrefnau ar waith er mwyn gwella cywirdeb data.
7. Defnyddir data cydraddoldeb i lywio blaenoriaethau ar gyfer Heddlu De Cymru a Chomisiynydd yr Heddlu a Throseddau De Cymru. Ceir enghreifftiau o sut mae hyn wedi digwydd yn Adran 11 (Defnyddio Data Cydraddoldeb i Wneud Gwahaniaeth).
8. Yr holl ddata a gyhoeddir yw'r diweddaraf sydd ar gael adeg ei grynhoi. Golyga hyn mai hon yw'r wybodaeth fwyaf cywir a diweddar sydd gennym. Fodd bynnag, golyga efallai nad yw'r wybodaeth hanesyddol (2011/12 a chynt) yn gweddu i'r wybodaeth a gyhoeddwyd.

Gwybodaeth am Gydraddoldeb

1. Dioddefwyr Troseddau

Dioddefwyr Troseddau yn ôl Heddlu ac Uned Reoli Sylfaenol (URS)⁶

Troseddau

Blwyddyn	URS y Gogledd ⁶	URS y Dwyrain ⁶	URS Ganolog ⁶	URS y Gorllewin ⁶	Heddlu De Cymru
2011-12 ⁷	17,407	32,497	14,453	22,993	87,350
2012-13 ⁷	16,081	31,652	13,752	23,043	84,528
Newid %	-7.6%	-2.6%	-4.9%	0.2%	-3.2%

Dioddefwyr* Troseddau

Blwyddyn	URS y Gogledd ⁶	URS y Dwyrain ⁶	URS Ganolog ⁶	URS y Gorllewin ⁶	Heddlu De Cymru
2011-12 ⁷	11,767	9,831	22,143	15,181	59,104
2012-13 ⁷	10,970	9,290	22,013	15,782	58,244
Newid %	-6.8%	-5.5%	-0.6%	4.0%	-1.5%

Cafwyd 182 o ddioddefwyr yn 2011/12 a 189 o ddioddefwyr yn 2012/13 nad ydynt yn gysylltiedig ag URhSau ond sydd wedi'u cynnwys yn y cyfanswm.

Dioddefwyr Troseddau 2012-13⁷ - % yn ôl Grŵp Oedran

Grŵp Oedran	URS y Gogledd ⁶	URS y Dwyrain ⁶	URS Ganolog ⁶	URS y Gorllewin ⁶	Heddlu De Cymru
<10	0.69%	0.52%	0.63%	0.78%	0.66%
10 - 17	4.73%	3.80%	6.26%	4.87%	4.77%
18 - 24	14.65%	23.48%	14.29%	20.23%	19.68%
25 - 44	41.64%	43.60%	39.47%	39.69%	41.83%
45 - 65	27.75%	22.04%	28.64%	25.01%	26.02%
65+	9.25%	5.31%	9.70%	8.33%	6.82%
Anhysbys/Heb Nodi	1.28%	1.26%	1.03%	1.08%	0.23%
Cyfanswm	100.00%	100.00%	100.00%	100.00%	100.00%

Cafwyd 189 o ddioddefwyr yn 2012/13 nad ydynt yn gysylltiedig ag URhSau ond sydd wedi'u cynnwys yn y cyfanswm.

**Nodir nifer y dioddefwyr drwy gyfrif y rheini a nodir fel 'dig' ar system rheoli cofnodion yr heddlu. Mae hyn yn llai na chyfanswm nifer y troseddau oherwydd gall troseddau fod a) heb ddioddefwr b) gyda dioddefwyr sy'n fusnesau neu'n sefydliadau eraill neu c) efallai nad yw'r dioddefwyr wedi'u categoreiddio fel 'dig' ar system rheoli cofnodion yr Heddlu.*

⁶ URS y Gogledd (Rhondda Cynon Taf a Merthyr Tudful), URS y Dwyrain (Caerdydd), URS Ganolog (Pen-y-bont ar Ogwr a Bro Morgannwg), URS y Gorllewin (Castell-nedd Port Talbot ac Abertawe)

⁷ Rhoddir Gwybodaeth am Ddarparu Gwasanaeth ar gyfer blynyddoedd ariannol e.e. cyfeiria 2012-13 at y cyfnod o 1af Ebrill 2012 tan 31ain Mawrth 2013

Dioddefwyr Troseddau 2012-13⁷ - % yn ôl Ethnigrwydd

Ethnigrwydd	URS y Gogledd ⁶	URS y Dwyrain ⁶	URS Ganolog ⁶	URS y Gorllewin ⁶	Heddlu De Cymru
Asiaidd	0.84%	2.85%	0.82%	1.44%	1.76%
Du	0.24%	1.45%	0.44%	0.46%	0.79%
Tsineiaidd neu Arall	0.45%	0.83%	0.33%	0.56%	0.60%
Cymysg	0.15%	0.98%	0.37%	0.27%	0.53%
Gwyn	51.21%	42.74%	48.57%	47.34%	46.50%
Anhysbys / Heb Nodi	47.12%	51.15%	49.47%	49.93%	49.82%
Cyfanswm	100.00%	100.00%	100.00%	100.00%	100.00%

Cafwyd 189 o ddiodefwyr yn 2012/13 nad ydynt yn gysylltiedig ag URhSau ond sydd wedi'u cynnwys yn y cyfanswm.

Dioddefwyr Troseddau 2012-13⁷ - % yn ôl Rhyw

Rhyw	URS y Gogledd ⁶	URS y Dwyrain ⁶	URS Ganolog ⁶	URS y Gorllewin ⁶	Heddlu De Cymru
Merched	49.21%	49.42%	47.26%	48.96%	45.55%
Dynion	48.68%	49.61%	51.60%	50.26%	53.50%
Arall	0.00%	0.05%	0.09%	0.06%	0.08%
Anhysbys / Heb Nodi	2.12%	0.92%	1.05%	0.72%	0.87%
Cyfanswm	100.00%	100.00%	100.00%	100.00%	100.00%

Cafwyd 189 o ddiodefwyr yn 2012/13 nad ydynt yn gysylltiedig ag URhSau ond sydd wedi'u cynnwys yn y cyfanswm.


Bodlonrwydd Dioddefwyr

Mae gan Heddlu De Cymru rwymedigaeth statudol i ymgynghori â diodefwyr troseddau mewn perthynas â'r gwasanaeth a roddwyd iddynt wrth roi gwybod am ddigwyddiad. Yn unol â gofynion y Swyddfa Gartref mae'r Heddlu yn canolbwyntio'n benodol ar fodlonrwydd cymharol diodefwyr Gwyn a diodefwyr Du a Lleiafrifoedd Ethnig (BME), a'u profiad cyffredinol o'r gwasanaeth a dderbyniwyd gan yr heddlu. Ym mis Mehefin 2012 cymerodd yr Heddlu gamau cadarnhaol i wella'r lefelau dirywiol o fodlonrwydd ymhlith yr holl ddiodefwyr ond yn benodol o fewn y categori troseddau cerbyd. Gwnaeth yr URS Ganolog dreialu dull arloesol newydd o fis Hydref 2012 yn deillio o ddadansoddiad a oedd yn ceisio gwella bodlonrwydd. Roedd y cynllun peilot yn llwyddiant ysgubol, a arweiniodd at lefelau bodlonrwydd yn rhagori ar unrhyw lefelau a gofnodwyd yn flaenorol o fewn yr Heddlu. Yn dilyn hyn mae'r fenter wedi'i chyflwyno ym mhob rhan o ardal yr heddlu. Rhagwelir y ceir gwelliannau arwyddocaol o ran bodlonrwydd yn ystod 2013/14 wrth i'r broses hon fod yn rhan o fusnes craidd.

⁶ URS y Gogledd (Rhondda Cynon Taf a Merthyr Tudful), URS y Dwyrain (Caerdydd), URS Ganolog (Pen-y-bont ar Ogwr a Bro Morgannwg), URS y Gorllewin (Castell-nedd Port Talbot ac Abertawe)

⁷ Rhoddir Gwybodaeth am Ddarparu Gwasanaeth ar gyfer blynyddoedd ariannol e.e. cyfeiria 2012-13 at y cyfnod o 1af Ebrill 2012 tan 31ain Mawrth 2013

12 month rolling satisfaction levels for Whole Experience:
White & BME Victims



**Lefelau bodlonwydd blwyddyn dreigl ar gyfer y Profiad Cyfan:
Dioddefwyr Gwyn a Phobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig**

Gwyn

Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig

Ebrill

Mai

Mehefin

Gorffennaf

Awst

Medi

Hydref

Tachwedd

Rhagfyr

Ionawr

Chwefror

Mawrth

Noder: Mae'r siart hwn yn dangos lefelau bodlonwydd ar sail blwyddyn dreigl. Golyga hyn fod pob pwynt ar y siart yn ymwneud â'r 12 mis o ddata hyd at ac yn cynnwys y mis hwnnw h.y. mae pwynt data mis Ionawr 2013 yn ymwneud â bodlonwydd dioddefwyr ar gyfer y cyfnod rhwng mis Chwefror 2012 a mis Ionawr 2013. Mae hyn yn ein galluogi i weld y duedd sylfaenol drwy ddi-ddymu effaith unrhyw amrywiadau tymhorol.

⁶ URS y Gogledd (Rhondda Cynon Taf a Merthyr Tudful), URS y Dwyrain (Caerdydd), URS Ganolog (Pen-y-bont ar Ogwr a Bro Morgannwg), URS y Gorllewin (Castell-nedd Port Talbot ac Abertawe)

⁷ Rhoddir Gwybodaeth am Ddarparu Gwasanaeth ar gyfer blynyddoedd ariannol e.e. cyfeiria 2012-13 at y cyfnod o 1af Ebrill 2012 tan 31ain Mawrth 2013

2. Trosedd Casineb

Defnyddir y term Trosedd Casineb gan Heddlu De Cymru i gyfeirio at ddigwyddiadau a throseddau ar sail casineb. Diffiniad Cymdeithas Prif Swyddogion yr Heddlu o ddigwyddiad casineb yw *"Unrhyw ddigwyddiad, os yw'n drosedd ai peidio, sydd, yn ôl barn y dioddefwr neu unrhyw un arall, wedi'i ysgogi gan ragfarn neu gasineb."* Diffinnir trosedd casineb yn benodol fel *"Unrhyw ddigwyddiad casineb sy'n drosedd ac sydd, yn ôl barn y dioddefwr neu unrhyw un arall, wedi'i ysgogi gan ragfarn neu gasineb."*

Rydym yn dilyn canllawiau'r Weinyddiaeth Gyfiawnder a'r Swyddfa Gartref ac yn monitro troseddau casineb yn ffurfiol yn ôl y pum categori canlynol - anabledd, ffydd, hil, tueddfryd rhywiol a thrawsrywedd.

Trosedd Casineb

Mae delio gyd phob agwedd ar Drosedd Casineb yn flaenoriaeth allweddol i Heddlu De Cymru ac mae mesurau i fynd i'r afael â Throsedd Casineb yn amlwg yn ein Cynllun Blynyddol 2013-2014 ac yn ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2012-2016.

Mae gan Heddlu De Cymru Bolisi Trosedd Casineb a Chanllawiau ar Drosedd Casineb sy'n rhoi cyfarwyddyd clir i holl swyddogion a staff Heddlu De Cymru ar nodi trosedd casineb ac mae'n amlinellu'r cyfrifoldebau a'r gweithdrefnau wrth ddelio â dioddefwyr. Mae cwrs hyfforddi, sef Nodi a Rheoli Digwyddiadau a Throseddau Casineb wedi'i ddarparu i amrywiaeth o staff sy'n cynnwys Swyddogion Ymateb, Swyddogion Plismona yn y Gymdogaeth a staff yr Heddlu sydd mewn rolau allweddol fel Staff Ymholiadau'r Orsaf, staff Canolfan Gwasanaethau'r Cyhoedd a Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu. Mae ymyrryd yn gynnar wrth ddelio gyda thramgwyddwyr a chefnogi dioddefwyr yn hollbwysig. Mae pwysleisio'r pwysigrwydd o gydnabod agwedd casineb ar ddigwyddiad a'r effaith a gaiff hyn ar nid yn unig y dioddefwr a'i deulu ond hefyd y gymuned ehangach, a all arwain at gydlyniant cymunedol yn methu, yn elfen allweddol o'r hyfforddiant.

Yn ychwanegol at hyn gwnaeth Gwasanaeth Erlyn y Goron Cymru mewn partneriaeth â Heddlu De Cymru ddarparu cyfres o sesiynau ymwybyddiaeth i swyddogion a staff a oedd yn canolbwyntio ar Ddwyn Troseddwyr Trosedd Casineb o Flaen eu Gwell. Dyluniwyd y sesiynau i godi ymwybyddiaeth o arfer effeithiol ar gyfer erlyn troseddwyr casineb yn llwyddiannus a chafodd y sesiynau canlynol eu cynnwys - nodi trosedd fel Trosedd Casineb; y prawf tystiolaeth a'r prawf budd y cyhoedd; deddfwriaeth / diffiniadau allweddol trosedd casineb ac ystyried pryd y gall S146 fod yn gymwys; mesurau arbennig ar gyfer tystion sy'n agored i niwed neu sydd wedi'u dychryn; a llunio achosion trosedd casineb ar gyfer erlyniad. Caiff sesiynau ymwybyddiaeth eraill eu darparu eleni.

Drwy ein strwythur Plismona yn y Gymdogaeth, ymgysylltu â'r gymuned o dan reolaeth Arolygydd Plismona Lleol yw'r egwyddor sylfaenol o sut mae Heddlu De Cymru ynghyd â'n hasiantaethau partner yn darparu gwasanaeth i wneud De Cymru'n Ddiogel. Mae ymgysylltu â chymunedau lleiafrifol a'u haelodau yn allweddol i'r strwythur hwn.

Bob diwrnod mae Timau Plismona yn y Gymdogaeth yn rhyngweithio ag aelodau'r gymuned i fynd i'r afael â rhagfarn ac ystrydebu. Mae Swyddogion Trosedd Casineb yn

ymweld â dioddefwyr trosedd casineb ac yn siarad gyda hwy gan gynnig cyngor a chymorth.

Mae cefnogi dioddefwyr trosedd casineb yn egwyddor hanfodol. Mae'r Swyddog Cyfrifol yn cynnal asesiad risg gyda'r dioddefwr a gall canlyniad yr asesiad hwn benderfynu ar y cymorth priodol. Mae Swyddogion Trosedd Casineb yn darparu cymorth penodol gan weithio gyda'r Swyddog Cyfrifol ac asiantaethau partner. Mae mesurau cymorth yn eang ac yn amrywiol ac yn cael eu penderfynu gan Gynllun Gweithredu a oruchwylir gan yr Arolygydd Plismona Lleol a chyfarfod Grŵp Adolygu Trosedd Casineb Uned Reoli Sylfaenol (URS) a gadeirir gan Uwch Reolwyr. Mae'r cyfarfodydd hyn yn caniatáu i uwch reolwyr graffu'n agos ar achosion o Drosedd Casineb a sicrhau bod pob cam gweithredu'n cael ei gwblhau.

At hynny, mae Heddlu De Cymru yn gweithredu strwythur llywodraethu diwygiedig i ddelio â throsedd casineb a fydd yn hwyluso ffocws llawn ar faterion sy'n ymwneud â throsedd casineb. Yn ychwanegol at y strwythur llywodraethu, bydd Heddlu De Cymru yn gweithredu Cynllun Datblygu Trosedd Casineb 3 Blynedd a fydd yn adlewyrchu nifer o argymhellion Cenedlaethol a Lleol.

Digwyddiadau Casineb yn ôl Heddlu ac Uned Reoli Sylfaenol (URS)⁶

Mae'r tablau canlynol yn dangos y pum llinyn o ddigwyddiadau sy'n ymwneud â throsedd casineb a gofnodwyd gan yr Heddlu fel rhan o'i ddyletswydd statudol:

Digwyddiadau Hiliol

Blwyddyn	URS y Gogledd ⁶	URS y Dwyrain ⁶	URS Ganolog ⁶	URS y Gorllewin ⁶	Heddlu De Cymru
2011-12 ⁷	255	668	200	492	1,615
2012-13 ⁷	243	612	156	408	1,419
Newid %	-4.7%	-8.4%	-22.0%	-17.1%	-12.1%

Digwyddiadau Homoffobig

Blwyddyn	URS y Gogledd ⁶	URS y Dwyrain ⁶	URS Ganolog ⁶	URS y Gorllewin ⁶	Heddlu De Cymru
2011-12 ⁷	67	113	55	115	350
2012-13 ⁷	63	97	40	91	291
Newid %	-5.9%	-14.2%	-27.3%	-20.9%	-16.9%

⁶ URS y Gogledd (Rhondda Cynon Taf a Merthyr Tudful), URS y Dwyrain (Caerdydd), URS Ganolog (Pen-y-bont ar Ogwr a Bro Morgannwg), URS y Gorllewin (Castell-nedd Port Talbot ac Abertawe)

⁷ Rhoddir Gwybodaeth am Ddarparu Gwasanaeth ar gyfer blynyddoedd ariannol e.e. cyfeiria 2012-13 at y cyfnod o 1af Ebrill 2012 tan 31ain Mawrth 2013

Digwyddiadau Casineb Ffydd

Blwyddyn	URS y Gogledd ⁶	URS y Dwyrain ⁶	URS Ganolog ⁶	URS y Gorllewin ⁶	Heddlu De Cymru
2011-12 ⁷	6	35	13	27	81
2012-13 ⁷	5	22	2	17	46
Ni ddangosir newidiadau canran gan fod y rhifau mor fach					

Digwyddiadau Anabledd

Blwyddyn	URS y Gogledd	URS y Dwyrain	URS Ganolog	URS y Gorllewin	Heddlu De Cymru
2011-12 ⁷	56	67	69	147	339
2012-13 ⁷	62	45	44	112	263
Newid %	10.7%	-32.8%	-36.2%	-23.8%	-22.4%

Digwyddiadau Trawsffobig

Blwyddyn	URS y Gogledd ⁶	URS y Dwyrain ⁶	URS Ganolog ⁶	URS y Gorllewin ⁶	Heddlu De Cymru
2011-12 ⁷	1	22	10	15	48
2012-13 ⁷	8	11	7	9	35
Ni ddangosir newidiadau canran gan fod y rhifau mor fach					

⁶ URS y Gogledd (Rhondda Cynon Taf a Merthyr Tudful), URS y Dwyrain (Caerdydd), URS Ganolog (Pen-y-bont ar Ogwr a Bro Morgannwg), URS y Gorllewin (Castell-nedd Port Talbot ac Abertawe)

⁷ Rhoddir Gwybodaeth am Ddarparu Gwasanaeth ar gyfer blynyddoedd ariannol e.e. cyfeiria 2012-13 at y cyfnod o 1af Ebrill 2012 tan 31ain Mawrth 2013

Troseddau Casineb

Gwnaeth y digwyddiadau canlynol sy'n gysylltiedig â chasineb gyfrif fel trosedd yn ôl diffiniad Rheolau Cyfrif y Swyddfa Gartref.

Troseddau Casineb

Grŵp Trosedd	2011-12 ⁷	2012-13 ⁷	Newid %
Trais yn erbyn yr unigolyn	724	795	9.8%
Trosedd rhywiol	7	2	*
Lladrad	9	7	*

Byrgleriaeth o annedd	5	4	*
Byrgleriaeth o safle arall	5	4	*
Dwyn cerbyd modur	1	2	*
Dwyn o gerbyd modur	5	4	*
Lladrad arall	28	24	*
Twyll neu ffugio	3	5	*
Difrod troseddol	174	167	-4.0%
Trosedd arall sy'n gysylltiedig â chyffuriau	2	1	*
Troseddau hysbysadwy eraill	9	4	*
Cyfanswm	972	1,019	4.8%

**Nid yw'r data wedi'i ddadansoddi yn ôl lefel URS gan fod y rhifau mor fach yn y rhan fwyaf o'r categorïau*

⁷ Rhoddir Gwybodaeth am Ddarparu Gwasanaeth ar gyfer blynyddoedd ariannol e.e. cyfeiria 2012-13 at y cyfnod o 1af Ebrill 2012 tan 31ain Mawrth 2013


Lefelau Bodlonrwydd Dioddefwyr

Mae'n ofyniad statudol i ni fonitro bodlonrwydd dioddefwyr troseddau casineb ar gyfer digwyddiadau hiliol yn unig. Fodd bynnag, mae'r Heddlu wedi penderfynu archwilio bodlonrwydd troseddau casineb ymhellach h.y. lefelau bodlonrwydd ar gyfer pob llinyn troseddau casineb rydym yn eu monitro.

Dylid nodi mai elfen fwyaf y sampl yw dioddefwyr digwyddiadau hiliol, ac o ganlyniad mae lefel bodlonrwydd y llinyn hwn yn pennu lefel bodlonrwydd cyffredinol troseddau casineb. Ni ellir dadansoddi bodlonrwydd troseddau casineb yn ôl llinynnau unigol oherwydd y niferoedd bychan o bobl (mewn llinynnau heblaw am ddigwyddiadau hiliol) sydd ar gael i gyfweld â hwy.

Bodlonrwydd Dioddefwyr: Profiad Cyfan - Dioddefwyr Digwyddiadau Hiliol a Throseddau Casineb

12 month rolling satisfaction levels for Whole Experience:
Racist Incident & Hate Crime victims



Lefelau bodlonrwydd blwyddyn dreigl ar gyfer y Profiad Cyfan Dioddefwyr Digwyddiad Hiliol a Throsedd Casineb Digwyddiad Hiliol Trosedd Casineb

Ebrill

Mai

Mehefin

Gorffennaf

Awst

Medi

Hydref

Tachwedd

Rhagfyr

Ionawr

Chwefror

Mawrth

Noder: Mae'r siart hwn yn dangos lefelau bodlonrwydd ar sail blwyddyn dreigl. Golyga hyn fod pob pwynt ar y siart yn ymwneud â'r 12 mis o ddata hyd at ac yn cynnwys y mis hwnnw h.y. mae pwynt data mis Ionawr 2013 yn ymwneud â bodlonrwydd dioddefwyr ar gyfer y cyfnod rhwng mis Chwefror 2012 a mis Ionawr 2013. Mae hyn yn ein galluogi i weld y duedd sylfaenol drwy ddiddymu effaith unrhyw amrywiadau tymhorol.

3. Cam-drin Domestig

Newidiodd y diffiniad o gam-drin domestig ym mis Ebrill 2013 ac mae bellach yn nodi'r canlynol:

"Mae Cam-drin Domestig yn cynnwys unrhyw ddigwyddiad neu batrwm o ddigwyddiadau o ymddygiad sy'n rheoli, sy'n gorfodi neu sy'n bygwth, trais neu gamdriniaeth rhwng y rheini sy'n 16 oed neu'n hŷn, sydd yn neu sydd wedi bod yn bartneriaid agos neu'n aelodau o'r teulu waeth beth yw eu rhyw neu rywedd."

Gall hyn gynnwys, ond nid yw'n gyfyngedig i, y mathau canlynol o gamdriniaeth: *"Seicolegol, Corfforol, Rhywiol, Ariannol ac Emosiynol."*

Diffinnir ymddygiad sy'n rheoli fel a ganlyn: *"Amrywiaeth o weithrediadau sydd wedi'u cynllunio i wneud rhywun yn israddol a/neu'n ddibynol drwy ei ynysu o ffynonellau cymorth, ecsploetio ei adnoddau a'i alluoedd er ennill personol, ei amddifadu o'r modd sydd ei angen er mwyn cael annibyniaeth, gwrthwynebiad a dihangfa a rheoleiddio ei ymddygiad o ddydd i ddydd."*

Diffinnir ymddygiad gorfodol fel a ganlyn: *"Gweithrediad neu batrwm o weithrediadau sy'n ymosod, yn bygwth, yn bychanu ac yn dychryn neu gamdriniaeth arall a ddefnyddir i niweidio, cosbi neu godi ofn ar ei ddioddefwr."*

Diffinnir aelodau'r teulu fel a ganlyn: *"Mam, tad, mab, merch, brawd, chwaer a neiniau a theidiau, p'un a ydynt yn perthyn yn uniongyrchol, yng nghyfraith neu'n llys deulu."*

Mae'r diffiniad hwn, nad yw'n ddiffiniad cyfreithiol, yn cynnwys trais er 'anrhydedd', enwaedu benywod a phriodas dan orfod, ac mae'n glir nad yw dioddefwyr wedi'u cyfyngu i un rhyw na grŵp ethnig.

O fewn Heddlu De Cymru, yn 2012, cafodd 8 aelod o staff cymorth arbenigol eu penodi i swyddi newydd a grëwyd o fewn ein Hunedau Atgyfeirio Diogelu'r Cyhoedd i asesu risg digwyddiadau cam-drin domestig. Roedd yr hyfforddiant yn cynnwys sesiynau ar ddioddefwyr gwrywaidd cam-drin domestig, trais er anrhydedd, priodas dan orfod ac enwaedu benywod fel y gallant fod yn ymwybodol o ddangosyddion y math hwn o gamdriniaeth. Darparwyd y sesiynau gan arbenigwyr sy'n gweithio gyda'r mathau hyn o ddioddefwyr o fewn ein hardal leol, a ddarparodd wybodaeth werthfawr a phrofiad proffesiynol. Mae aseswyr risg hefyd yn rhannu gwybodaeth gydag asiantaethau partner pan fo'n briodol i gefnogi dioddefwyr a chynllunio diogelwch yn ôl eu hanghenion penodol.

Ym mis Mai 2013 gwnaeth Heddlu De Cymru ar y cyd â Heddlu Dyfed Powys gydgyssylltu ac ariannu hyfforddiant Cynhadledd Asesu Risg Aml-asiantaeth (MARAC) a ddarparwyd i Gadeiryddion a dirprwyon MARAC yn y ddau heddlu.

Yn ystod haf 2013 bydd Heddlu De Cymru hefyd yn darparu hyfforddiant diogelu'r cyhoedd i'r holl swyddogion a staff y rheng flaen sy'n gweithio yng nghanolfan gwasanaethau'r cyhoedd, a fydd yn cynnwys hyfforddiant ar gam-drin domestig.

Digwyddiadau a Throseddau Cam-drin Domestig

Digwyddiadau Cam-drin Domestig yn ôl Heddlu ac Uned Reoli Sylfaenol (URS)⁶

Blwyddyn	URS y Gogledd ⁶	URS y Dwyrain ⁶	URS Ganolog ⁶	URS y Gorllewin ⁶	Heddlu De Cymru
2011-12 ⁷	7,084	7,175	5,698	8,196	28,153
2012-13 ⁷	7,299	7,274	4,915	8,049	27,537
Newid %	3.0%	1.4%	-13.7%	-1.8%	-2.2%

Gwnaeth yr achosion canlynol o gam-drin domestig gyfrif fel trosedd yn ôl diffiniad o Reolau Cyfrif y Swyddfa Gartref.

Troseddau Domestig

Blwyddyn	URS y Gogledd ⁶	URS y Dwyrain ⁶	URS Ganolog ⁶	URS y Gorllewin ⁶	Heddlu De Cymru
2011-12 ⁷	1,490	1,475	1,272	1,496	5,733
2012-13 ⁷	1,667	1,934	1,176	1,811	6,588
Newid %	11.9%	31.1%	-7.5%	21.1%	14.9%

Dioddefwyr Trosedd Domestig 2012-13⁷ - % yn ôl Grŵp Oedran*

Grŵp Oedran	URS y Gogledd ⁶	URS y Dwyrain ⁶	URS Ganolog ⁶	URS y Gorllewin ⁶	Heddlu De Cymru
18 - 24	21.1%	29.5%	26.6%	24.3%	25.5%
25 - 44	53.2%	46.8%	46.7%	49.0%	49.0%
45 - 65	16.3%	15.7%	17.9%	17.9%	16.8%
65+	2.7%	1.2%	2.0%	2.1%	2.0%
Anhysbys / Heb Nodi	6.6%	6.8%	6.9%	6.7%	6.8%
Cyfanswm	100.0%	100.0%	100.0%	100.0%	100.0%

Cafwyd 17 o ddioddefwyr yn 2012-13 na neilltuwyd i URhSau a chânt eu cynnwys yn y cyfansymiau.

*Nid oes unrhyw ffigurau ar gyfer pobl 16-17 oed gan mai dim ond yn ddiweddar y mae'r diffiniad o 'gam-drin domestig' wedi cael ei newid i'w cynnwys. Bydd cyhoeddiadau'r dyfodol yn cynnwys y categori hwn.

⁶ URS y Gogledd (Rhondda Cynon Taf a Merthyr Tudful), URS y Dwyrain (Caerdydd), URS Ganolog (Pen-y-bont ar Ogwr a Bro Morgannwg), URS y Gorllewin (Castell-nedd Port Talbot ac Abertawe)

⁷ Rhoddir Gwybodaeth am Ddarparu Gwasanaeth ar gyfer blynyddoedd ariannol e.e. cyfeiria 2012-13 at y cyfnod o 1af Ebrill 2012 tan 31ain Mawrth 2013

Dioddefwyr Troseddau Domestig 2012-13⁷ - % yn ôl Ethnigrwydd

Ethnigrwydd	URS y Gogledd ⁶	URS y Dwyrain ⁶	URS Ganolog ⁶	URS y Gorllewin ⁶	Heddlu De Cymru
Asiaidd	0.2%	2.6%	0.2%	0.6%	1.0%
Du	0.1%	2.3%	0.4%	0.3%	0.9%
Tsieineaidd neu Arall	0.1%	0.6%	0.3%	0.5%	0.4%
Cymysg	0.2%	1.5%	0.6%	0.3%	0.7%
Gwyn	62.7%	54.8%	60.7%	55.5%	58.0%
Anhysbys / Heb Nodi	36.7%	38.2%	37.9%	42.8%	39.0%
Cyfanswm	100.0%	100.0%	100.0%	100.0%	100.0%

Cafwyd 17 o ddiodefwyr yn 2012-13 na neilltuwyd i URhSau a chânt eu cynnwys yn y cyfansymiau.

Dioddefwyr Troseddau Domestig 2012-13⁷ - % yn ôl Rhyw

Rhyw	URS y Gogledd ⁶	URS y dwyrain ⁶	URS Ganolog ⁶	URS y Gorllewin ⁶	Heddlu De Cymru
Merched	80.9%	81.7%	79.8%	79.0%	80.5%
Dynion	18.6%	18.0%	19.6%	20.7%	19.1%
Arall	0.1%	0.1%	0.1%	0.1%	0.1%
Anhysbys / Heb Nodi	0.5%	0.3%	0.5%	0.2%	0.4%
Cyfanswm	100.0%	100.0%	100.0%	100.0%	100.0%

Priodas Dan Orfod a Thrais Er Anrhydedd

Mae gan Heddlu De Cymru staff arbenigol sydd ar gael i helpu dioddefwyr Trais Er Anrhydedd a Phriodas Dan Orfod ond mewn poblogaeth amrywiol, aml-ddiwylliant sy'n tyfu rydym wedi gorfod adolygu nifer yr achosion o Drais Er Anrhydedd a Phriodas Dan Orfod a'r ffordd orau o sicrhau gwasanaeth effeithiol ac effeithlon i'r cyhoedd.

O ganlyniad i hyn, mae Heddlu De Cymru wedi cyflawni rhaglen arwyddocaol o newid o dan 'Diwygiad', sydd wedi creu llwyfan ar gyfer gwelliant parhaus, ein galluogi i ateb yr heriau sy'n ymwneud â darparu gwasanaeth yn seiliedig ar alw a chyflawni gweledigaeth yr Heddlu o fod y gorau am ddeall anghenion cymunedau De Cymru ac ymateb iddynt.

⁶ URS y Gogledd (Rhondda Cynon Taf a Merthyr Tudful), URS y Dwyrain (Caerdydd), URS Ganolog (Pen-y-bont ar Ogwr a Bro Morgannwg), URS y Gorllewin (Castell-nedd Port Talbot ac Abertawe)

⁷ Rhoddir Gwybodaeth am Ddarparu Gwasanaeth ar gyfer blynyddoedd ariannol e.e. cyfeiria 2012-13 at y cyfnod o 1af Ebrill 2012 tan 31ain Mawrth 2013

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, mae dau gam arwyddocaol wedi'u cymryd gan Heddlu De Cymru i gyflawni'r amcanion hyn a gwella'r gwasanaeth a ddarperir i ddioddefwyr Trais Er Anrhydedd / Priodas Dan Orfod:

Y cyntaf oedd lleoli ei swyddogion Trais Er Anrhydedd / Priodas Dan Orfod ym mhob un o'i Unedau Rheoli Sylfaenol er mwyn gweithio wrth wraidd cymunedau De Cymru, yn agosach at aelodau'r cyhoedd.

Yn ail, ar y cyd â'r adleoliad hwn o bersonél, mae Heddlu De Cymru yn gweithio ar ddatblygu cwrs hyfforddiant ar Drais Er Anrhydedd / Priodas Dan Orfod a fydd yn canolbwyntio ar ofynion unigryw dioddefwyr a chaiff ei ddarparu i'r swyddogion priodol. Bydd hyn yn cynyddu nifer y swyddogion arbenigol a geir yn lleol sy'n gallu delio ag achosion Trais Er Anrhydedd / Priodas Dan Orfod a thrwy hynny'n gwella'r gwasanaeth a ddarperir i ddioddefwyr.

Achosion Trais Er Anrhydedd

Blwyddyn	Achosion Trais Er Anrhydedd
2011-12 ⁷	41
2012-13 ⁷	53
Newid %	17.4%

Noder: Mae Achosion Er Anrhydedd yn ddigwyddiadau neu'n droseddau y credir eu bod yn gysylltiedig ag anrhydedd (y gallent fod wedi'u cyflawni i ddiogelu neu amddiffyn anrhydedd y teulu a/neu gymuned ai peidio) ac mae'r rhain yn cynnwys Priodas Dan Orfod neu fygwth Priodas Dan Orfod.

⁷ Rhoddir Gwybodaeth am Ddarparu Gwasanaeth ar gyfer blynyddoedd ariannol e.e. cyfeiria 2012-13 at y cyfnod o 1af Ebrill 2012 tan 31ain Mawrth 2013

4. Stopio a Chwilio

Daeth Deddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol 1984 (PACE) i rym ym mis Medi 1985, ac roedd yn cynnwys pwerau'r Heddlu i Stopio a Chwilio. Roedd pedwar Cod Ymarfer yn gysylltiedig â'r Ddeddf; arweiniad anstatudol i swyddogion wrth ddefnyddio pwerau penodol o dan PACE, gan gynnwys Cod A – Stopio a Chwilio. Gall swyddogion stopio a chwilio unrhyw un y mae ganddynt sail resymol i gredu bod yr unigolyn yn cario eitem waharddedig neu a ddygwyd ac/neu i liniaru neu gadarnhau drwgdybiaethau am yr unigolyn heb ei arestio. Mae defnyddio pwerau stopio a chwilio yn galluogi'r heddlu i fynd i'r afael â throseddu ac ymddygiad gwrthgymdeithasol ac i atal troseddau mwy difrifol rhag digwydd.

Mae'n rhaid defnyddio'r pwerau stopio a chwilio yn deg, yn gyfrifol, gan barchu'r sawl sy'n cael ei chwilio a heb wahaniaethu anghyfreithlon.

Mae Heddlu De Cymru yn cynnal Bwrdd Adolygu Stopio a Chwilio bob chwarter, a gadeirir gan Brif Swyddog, a'i ddiben yw:

- a) adolygu defnydd yr heddlu o bwerau stopio a chwilio i sicrhau y'u defnyddir a'u cymhwysir yn deg; a
- b) sicrhau y rhoddir arfer gorau ar waith wrth stopio a chwilio.

Ym mis Gorffennaf 2012, cwblhaodd Heddlu De Cymru y broses o gyflwyno dyfeisiau data symudol i'w holl swyddogion ar batrôl, gan eu galluogi i gwblhau ffurflenni stopio a chwilio yn electronig i mewn i gronfa ddata. Bydd hyn yn cael effaith gadarnhaol ar atal troseddau a mynd i'r afael â hwy, yn ogystal â gwella'r broses o ddadansoddi gweithgarwch stopio a chwilio o ran canlyniadau a nodweddion gwarchoddedig a gofnodwyd.

Mae'r trawsnewid i gofnodi'r broses stopio a chwilio yn symudol, tra'n lleihau biwrocratiaeth a gwella effeithlonrwydd wedi arwain at waethygu ansawdd data dros dro wrth i'r holl swyddogion o fewn yr heddlu gyflawni hyfforddiant ac wrth i brosesau newydd ar gyfer sicrhau ansawdd gael eu cynnwys ym musnes craidd yr heddlu. Mae'r holl faterion hyn yn cael eu rheoli drwy'r bwrdd stopio a chwilio.

Mae'r tablau canlynol yn dangos nifer yr achosion o stopio a chwilio rhwng mis Ebrill 2011 a mis Mawrth 2013. Mae'r Heddlu yn parhau i wneud cynnydd wrth gasglu data, cofnodi, hygyrchedd ac arfer gorau o ran rhoi pwerau stopio a chwilio ar waith.

Stopio a Chwilio - Grŵp Oedran

Grŵp Oedran	Nifer yr Achosion Stopio a Chwilio		Achosion Stopio a Chwilio fesul 1000 y Boblogaeth yn ôl Grŵp Oedran	
	2011-12 ⁷	2012-13 ⁷	2011-12 ⁷	2012-13 ⁷
10 i 17	3,446	2,267	28.7	18.9
18 i 24	5,156	4,149	36.4	29.3
25 i 44	4,796	4,681	14.1	13.8
45 i 64	642	687	2.0	2.1
65 +	29	28	0.1	0.1
Pawb	14,263	11,943	11.1	9.3

Noder: roedd 1,296 o achosion stopio a chwilio yn 2012-13 a oedd o ethnigrwydd anhysbys ac sydd heb eu cynnwys. Mae'r rheswm dros y cynnydd mewn achosion o stopio a chwilio anhysbys yn 2012-13 oherwydd yr effaith dros dro ar ansawdd y data a gasglwyd yn ystod y trawsnewid i recordio data symudol.

Stopio a Chwilio - Ethnigrwydd

Ethnigrwydd	Nifer yr Achosion Stopio a Chwilio		Achosion Stopio a Chwilio fesul 1000 y Boblogaeth yn ôl Ethnigrwydd	
	2011-12 ⁷	2012-13 ⁷	2011-12 ⁷	2012-13 ⁷
Asiaidd neu Asiaidd Prydeinig	344	237	7.8	5.4
Du neu Ddu Prydeinig	441	267	34.6	21.0
Tsieineaidd neu Ethnigrwydd Arall	41	70	3.9	6.7
Cymysg	194	145	10.9	8.2
Cyfanswm Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig	1020	719	12.0	8.4
Gwyn	12,921	9,360	10.8	7.8
Heb Nodi	322	568	Dd/B	Dd/B
Pawb	14,263	11,943	11.1	9.3

Noder: roedd 1,296 o achosion stopio a chwilio yn 2012-13 a oedd o ethnigrwydd anhysbys ac sydd heb eu cynnwys. Mae'r rheswm dros y cynnydd mewn achosion o stopio a chwilio anhysbys yn 2012-13 oherwydd yr effaith dros dro ar ansawdd y data a gasglwyd yn ystod y trawsnewid i recordio data symudol.


Stopio a Chwilio - Rhyw

Rhyw	Nifer yr Achosion Stopio a Chwilio		Achosion Stopio a Chwilio fesul 1000 y Boblogaeth yn ôl Ethnigrwydd	
	2011-12 ⁷	2012-13 ⁷	2011-12 ⁷	2012-13 ⁷
Merched	1,372	1,105	2.1	1.7
Dynion	12,855	10,711	20.4	17.0
Pawb	14,263	11,943	11.1	9.3

Noder: Roedd 36 a 127 o achosion stopio a chwilio yn 2011-12 a 2012-13 yn y drefn honno lle nad oedd y rhyw yn hysbys, ac nid ydynt wedi'u cynnwys. Mae'r rheswm dros y cynnydd mewn achosion o stopio a chwilio anhysbys yn 2012-13 oherwydd yr effaith dros dro ar ansawdd y data a gasglwyd yn ystod y trawsnewid i recordio data symudol.

⁷ Rhoddir Gwybodaeth am Ddarparu Gwasanaeth ar gyfer blynyddoedd ariannol e.e. cyfeiria 2012-13 at y cyfnod o 1af Ebrill 2012 tan 31ain Mawrth 2013

Canlyniadau Stopio a Chwilio yn ôl Ethnigrwydd 2011-12⁷



Canlyniad Stopio a Chwilio yn ôl Ethnigrwydd 2011-12

Arall

Arestio

Dim Camau Pellach

Asiaidd

Du

Tsieineaidd neu Arall

Cymysg


Gwyn

Heb Nodi

Pawb

* Mae 'Arall' yn cynnwys canlyniadau fel rhybuddion canabis, hysbysiadau o gosb benodedig, hysbysiad o gosb am anhrefn, cyngor ar lafar, codi gŵys

Canlyniadau Stopio a Chwilio yn ôl Ethnigrwydd 2012-13⁷



Canlyniad Stopio a Chwilio yn ôl Ethnigrwydd 2012-13

Heb ei Gofnodi**

Arall

Arestio

Dim Camau Pellach

Asiaidd

Du

Tsineiaidd neu Arall

Cymysg

Gwyn

Anhysbys**


Heb Nodi

Pawb

***Mae ansawdd y data wedi cael ei effeithio o ganlyniad i'r trawsnewid i gofnodi achosion stopio a chwilio yn symudol electronig.*

⁷ Rhoddir Gwybodaeth am Ddarparu Gwasanaeth ar gyfer blynyddoedd ariannol e.e. cyfeiria 2012-13 at y cyfnod o 1af Ebrill 2012 tan 31ain Mawrth 2013

Canlyniadau Stopio a Chwilio yn ôl Grŵp Oedran 2011-12⁷



Canlyniad Stopio a Chwilio yn ôl Grŵp Oedran 2011-12

Arall*

Arestio

Dim Camau Pellach

10 i 17

18 i 24

25 i 44

45 i 64


65+

Heb ei Gadarnhau

Pawb

* Mae 'Arall' yn cynnwys canlyniadau fel rhybuddion cannabis, hysbysiadau o gosb benodedig, hysbysiad o gosb am anhrefn, cyngor ar lafar, codi gŵys

Canlyniadau Stopio a Chwilio yn ôl Grŵp Oedran 2012-13⁷



Canlyniad Stopio a Chwilio yn ôl Grŵp Oedran 2012-13

Heb ei Gofnodi**

Arall*

Arestio

Dim Camau Pellach

10 i 17

18 i 24

25 i 44

45 i 64

65+

Anhysbys**

Pawb

**Mae ansawdd y data wedi cael ei effeithio o ganlyniad i'r trawsnewid i gofnodi achosion stopio a chwilio yn symudol electronig.*

⁷ Rhoddir Gwybodaeth am Ddarparu Gwasanaeth ar gyfer blynyddoedd ariannol e.e. cyfeiria 2012-13 at y cyfnod o 1af Ebrill 2012 tan 31ain Mawrth 2013

5.Cwynion

Cwynion a Gofnodwyd gan y Cyhoedd yn Erbyn Gweithwyr Heddlu De Cymru

Nifer y Cwynion

Blwyddyn	Nifer y Cwynion a Gofnodwyd
2011-12 ⁷	648
2012-13 ⁷	629
Newid %	-3.0%

Canlyniadau'r Achosion Cwyno*

Blwyddyn	DULL DOD I BEN					Cyfanswm
	Proses Weinyddol**	Datrysiad (Lleol) Anffurfiol***	Wedi'u Cynnal	Heb eu Cynnal	Tynnu Nôl	
2011-12	87	182	15	138	172	594
2012-13	54	161	11	150	196	572

*yn wahanol i'r data a gyhoeddwyd yn flaenorol yn yr ystyr fod y tabl hwn yn rhoi manylion pob Achos sydd wedi Dod i Ben yn ystod y cyfnod, tra yn flaenorol roedd yn "ddarlun statws" o'r cwbl a gofnodwyd yn ystod y cyfnod.

**yn cynnwys y broses Goddefeb, Dirwyn i Ben a Datrecordio

***yn cynnwys Datrysiadau Lleol a gynhaliwyd gan yr Adran Safonau Proffesiynol a'r Uned Reoli Sylfaenol

⁷ Rhoddir Gwybodaeth am Ddarparu Gwasanaeth ar gyfer blynyddoedd ariannol e.e. cyfeiria 2012-13 at y cyfnod o 1af Ebrill 2012 tan 31ain Mawrth 2013

Dosraniad Canrannol Canlyniadau Terfynol Cwynion

Blwyddyn	DULL DOD I BEN					Cyfanswm
	Proses Weinyddol	Datrysiad (Lleol) Anffurfiol	Wedi'u Cynnal	Heb eu Cynnal	Tynnu Nôl	
2012/13	14.6%	30.6%	2.5%	23.2%	29.0%	100.0%

Achwynwyr 2012-2013⁷ - % yn ôl Oedran

Grŵp Oedran	% o'r holl Achwynwyr
0-19	3.3%
20-29	13.1%
30-39	11.2%
40-49	13.5%
50-59	7.9%
60-64	3.0%
65+	3.9%
Heb Nodi	44.1%

Achwynwyr 2012-2013⁷ - % yn ôl Anabledd

Statws Anabledd	% o'r holl Achwynwyr
Anabl	9.4%
Ddim yn Anabl	26.9%
Anhysbys / Heb Nodi	59.8%
Arall	2.0%
Ddim am ddweud	1.9%

⁷ Rhoddir Gwybodaeth am Ddarparu Gwasanaeth ar gyfer blynyddoedd ariannol e.e. cyfeiria 2012-13 at y cyfnod o 1af Ebrill 2011 tan 31ain Mawrth 2012

Achwynwyr 2012-2013⁷ - % yn ôl Tarddiad Ethnig

Tarddiad Ethnig	% o'r holl Achwynwyr
Asiaidd	1.6%
Du	2.2%
Arall	2.0%
Anhysbys	45.2%
Gwyn	49.0%

Achwynwyr 2012-2013⁷ - % yn ôl Rhyw

Rhyw	% o'r Holl Achwynwyr
Merched	34.8%
Dynion	64.3%
Arall	0.2%
Trawsryweddol	0.2%
Heb Nodi	0.6%

Achwynwyr 2012-2013⁷ - yn ôl Crefydd

Crefydd	% o'r Holl Achwynwyr
Anffyddiwr	0.2%
Bwdhaeth	0.5%
Cristnogaeth	17.5%
Eglwys Loegr	2.0%
Eglwys Gymru	0.3%
Hindwâeth	0.3%
Islamaidd / Moslemaidd	1.7%
Iddewiaeth	0.2%
Dim (Agnostig)	11.0%
Heb Nodi	57.8%
Arall	0.6%
Ddim am ddweud	5.2%
Catholig	2.7%

⁷ Rhoddir Gwybodaeth am Ddarparu Gwasanaeth ar gyfer blynyddoedd ariannol e.e. cyfeiria 2012-13 at y cyfnod o 1af Ebrill 2012 tan 31ain Mawrth 2013

Achwynwyr 2012-2013⁷ - % yn ôl Tueddfryd Rhywiol

Tueddfryd Rhywiol	% o'r Holl Achwynwyr
Deurywiol	0.9%
Hoyw / Lesbiaidd	2.2%
Heterorywiol	37.6%
Heb Nodi	55.0%
Ddim am ddweud	4.3%

